# 10.0 Marchnata a Chyfathrebu

## Brandio

### Trosolwg


1. Beth yw brand?
2. Creu brand llwyddiannus
3. Eich mudiad a'i frand
4. Pam ail-frandio?
5. Y costau
6. Peryglon posibl brandio slic
7. Sicrhau llwyddiant parhaus eich brand
8. Gwybodaeth bellach


### Beth yw brand?

Eich brand chi yw'r ddelwedd sy'n cynrychioli eich mudiad ac yn ei wahaniaethu oddi wrth elusennau eraill.

Dylai brand gyfleu neges eich elusen yn glir i gefnogwyr a noddwyr posibl.

Mewn cymdeithas sydd ag obsesiwn am ddelwedd, mae brandio'n fusnes mawr. Mae brand cydlynol sy'n cael ei gyfleu'n dda yn hanfodol i barhad mudiad.

> **Unrhyw arwydd amlwg neu ddyfais a ddefnyddir gan fenter busnes i adnabod ei nwyddau a'u gwahaniaethu oddi wrth y rhai a wneir neu a gaiff eu cludo gan eraill.**
>
> Encyclopaedia Britannica




## Creu brand llwyddiannus

Mae'n debyg y bydd cefnogwyr neu roddwyr posibl yn rhyngweithio â'ch brand cyn iddynt gwrdd ag wyneb dynol eich mudiad.

Mae brand yn fwy na logo neu lun yn unig. Mae'n rhoi argraff gyntaf o'ch mudiad ac yn siapio'r ffordd y mae'r cyhoedd yn gweld eich gwaith.

Yr elusennau a'r mudiadau gwirfoddol â'r brandiau mwyaf llwyddiannus yw'r rhai sy'n llwyddo i efelychu pecynnau corfforaethol ac sy'n debyg iddynt.

Bydd datblygu a sefydlu brand cryf yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd darpar gefnogwyr yn dewis cefnogi eich mudiad dros elusen lai adnabyddus nad yw ei dulliau marchnata cystal.

Man cychwyn da yw amlinellu pam eich bod yn unigryw ac yna crynhoi hyn mewn datganiad geiriau. Mae Tesco yn defnyddio 'every little helps', mae Fairbridge yn defnyddio 'helping inner-city youth' ac mae'r Ymddiriedolaeth Cyfryngau yn defnyddio 'helping charities communicate'.

Bydd brand cryf yn:

- Mynegi gweledigaeth a gwerthoedd eich elusen yn glir
- Egluro anghenion ac amcanion eich elusen gan gyfleu'r hyn yr ydych yn ei ddymuno gan gefnogwyr ar unwaith
- Rhoi gwybod i'r rhai a allai gael budd o'ch gwasanaethau beth yn union y mae eich mudiad yn ei gynnig
- Apelio at eich cynulleidfa darged
- Cyfleu negeseuon cyson ac yn gadarn yn ei ymdrechion marchnata – gwneud yn siŵr bod iaith ac agwedd eich staff yn adlewyrchu brand ac amcanion eich elusen
- Darparu profiadau da a lluniau sy'n atgyfnerthu'r rhain yn gadarnhaol
- Cynnwys y brand ar yr holl ddeunyddiau a gyhoeddir gan y mudiad, ar-lein ac all-lein
- Addasu a thyfu os oes angen wrth i'r byd o'n cwmpas ddatblygu a newid

## Eich mudiad a'i frand

Cyn cyflwyno eich brand i'r farchnad gwnewch yn siŵr y gall y mudiad gadw at ei addewidion. Bydd cyflawni'r hyn rydych yn ei sicrhau yn annog pobl i ymddiried yn eich mudiad.

Ar y llaw arall, gallai methu â bodloni disgwyliadau wneud niwed na ellir ei ddadwneud i enw da a chefnogaeth eich mudiad. Felly, dylech gymryd camau i sicrhau bod brand eich mudiad yn gyson â'ch nodau.

- Byddwch yn glir ynglŷn â'r hyn y mae eich mudiad yn ei gynrychioli a'r hyn rydych yn gobeithio ei gyflawni
- Siaradwch â'ch rhanddeiliaid ac ymchwilio i weld a yw eu disgwyliadau yn gyson â'r hyn y mae eich mudiad yn ei wneud
- Ymchwiliwch i sut rydych chi'n cymharu â'ch cystadleuwyr
- Edrychwch ar bwy sy'n cefnogi eich brand a pham
- Gofynnwch beth yw manteision eich gwasanaeth i fuddiolwyr

## Pam ail-frandio?

Os byddwch yn penderfynu ail-frandio, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod beth mae'r broses yn ei olygu a'r buddion rydych chi'n rhagweld y bydd eich mudiad yn ei gael.

- Gall ailwampio eich brand adfywio'r mudiad, ei amlygu i farchnadoedd newydd a chynyddu cyfraniadau ariannol i'ch elusen
- Gallai delwedd mudiad sydd wedi hen ennill ei blwyf ymddangos yn flinedig ac yn hen ffasiwn. Gall adleoli amserol adfywio delwedd eich mudiad
- Gallai rhai geiriau neu luniau gael effaith negyddol ar lwyddiant a gallu eich mudiad i farchnata. Gall mabwysiadu brand sy'n ystyriol o ddefnyddwyr ac sy'n crynhoi eich neges drawsnewid perfformiad ac apêl eich mudiad yn sylweddol

## Y costau

Ni fydd cyllidebau'r rhan fwyaf o fudiadau yn ymestyn i dalu costau ymarferiad brandio proffesiynol lawn. Fodd bynnag, mae dewisiadau ar gael er mwyn i'ch mudiad ddatblygu brand da.

- Ymchwiliwch pa fusnesau sy'n fodlon cynnig eu gwasanaethau ar sail pro-bono
- Canolbwyntiwch ar gyflwyno delwedd gref yn y farchnad rydych wedi'i diffinio. Byddwch yn ymwybodol o sut mae brandiau byd-eang sy'n cael eu harwain gan y cyfryngau yn perfformio, a lle bo'n bosibl ceisiwch efelychu eu llwyddiant

## Peryglon posibl brandio slic

Gall brandio da wneud gwahaniaeth sylweddol i iechyd ariannol eich mudiad ac ymwybyddiaeth y cyhoedd ohono. Serch hynny, gall rhai problemau godi. Gallai codi gormod o arian, er enghraifft, danseilio gwerth eich brand yn ddifrifol os bydd rhoddwr yn anghytuno â gwerth talu costau ymarferiad brandio gydag arian y mae'n credu y byddai'n well ei wario ar gyflawni brîff eich mudiad.

- Cofiwch sicrhau bod eich mudiad yn cyfiawnhau ei wariant
- Os ydych wedi gwneud eich ymchwil ymysg eich cynulleidfa ac wedi'ch argyhoeddi y bydd ailwampio eich brand ar raddfa eang yn gwella perfformiad eich mudiad, yna ystyriwch y prosiect fel buddsoddiad

- Dylech gyflwyno tystiolaeth o fanteision tebygol i'ch mudiad a'i gefnogwyr a chyfleu hyn yn glir i randdeiliaid allweddol

## Sicrhau llwyddiant parhaus eich brand

Mesurwch berfformiad a chanfyddiadau eich brand drwy arolygon prisio brand.

- Dylech fesur ymatebolrwydd rhoddwyr a chefnogwyr presennol, newydd a phosibl
- Asesu ymateb eich cyflogeion a'ch buddiolwyr
- Sicrhau bod brand eich mudiad yn cael cymaint â phosibl o effaith drwy fonitro ac ymateb i anghenion newidiol eich cynulleidfa

### Cofiwch

Mae brandio a marchnata yn aros yn y cof, yn enwedig pan gânt eu gwneud yn dda. Byddwch yn gyson ac yn barhaus yn eich cyhoeddusrwydd ac yn y negeseuon rydych chi'n eu cyfleu.

## Gwybodaeth bellach

**Pecyn cymorth Housebrands i fudiadau nid er elw (Saesneg yn unig)**
**Housebrands**
https://www.housebrandstoolkits.online/

---

**Gwybod sut - Brandio (Saesneg yn unig)**
**NCVO**
https://knowhow.ncvo.org.uk/campaigns/brand/branding/branding

Cefnogi Trydydd Sector **Cymru**

Third Sector Support **Wales**

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â **https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/**

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.